SFJHI1

# Cynllunio, gweithredu a rheoli'r gwaith o rannu gwybodaeth ac arfer da i lywio arloesedd a gwella'r gwasanaeth a ddarperir

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rhannu gwybodaeth ac arfer da oddi mewn i sefydliadau a rhyngddynt er mwyn llywio a gwella ymarfer a chyflwyno gwasanaeth. Bydd hefyd yn cynorthwyo rheolwyr i oresgyn rhwystrau a phethau sy'n llesteirio rhannu gwybodaeth ac arfer da er lles y sector. Y nod yw helpu rheolwyr i ganfod meysydd arfer da oddi mewn i'w meysydd cyfrifoldeb eu hunain a rhannu hynny gydag eraill. Nod arall yw helpu rheolwyr i ddysgu o brofiad pobl eraill a bod yn agored i syniadau a gynhyrchir y tu allan i'w sefydliad eu hunain y gellid eu defnyddio, eu diwygio neu eu haddasu yn eu cyd-destun gwaith eu hunain i wella ymarfer a chyflwyno gwasanaeth. Mae'r safon yn annog rheolwyr i adolygu rhannu arfer da yn eu sefydliad eu hunain, h.y. annog datblygu 'sefydliad sy'n dysgu'. Mae hefyd yn cynnal gwaith partneriaeth ac yn darparu sylfaen ar ei gyfer.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi rhesymau dros rannu gwybodaeth ac arfer da i wella cyflwyno gwasanaeth a rhannu gydag eraill yn y sefydliad
2. adolygu prosesau ac ymarfer yn rheolaidd yn eich maes cyfrifoldeb eich hun a gwerthuso eu gwerth a'u potensial o ran gallu eu trosglwyddo i leoliadau eraill yn fewnol ac yn allanol
3. ymchwilio i feincnodau arfer da perthnasol ac asesu eich arfer da eich hun yn eu herbyn
4. canfod a defnyddio trefniadau rhannu gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli yn eich sefydliad eich hun
5. cyfathrebu'r trefniadau ar gyfer rhannu arfer da gyda llunwyr penderfyniadau perthnasol mewn sefydliadau a sicrhau eu cytundeb a'u hymrwymiad i'r broses
6. creu cyfleoedd i ddatblygu trefniadau i rannu gwybodaeth ac arfer da gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol
7. nodi cyfleoedd i gyrchu gwybodaeth am arfer da o ffynonellau y tu allan i'r sefydliad a allai lywio eich ymarfer eich hun
8. gwerthuso gwybodaeth a dderbyniwyd yng nghyd-destun eich maes rheoli a gweithredu eich hun, a gwirio'i dilysrwydd a'r gallu i'w throsglwyddo
9. defnyddio gwybodaeth a dderbyniwyd i lywio a gwella eich ymarfer eich hun ac ymarfer eich sefydliad a chyflwyno gwasanaeth
10. cynnal archwiliad o'ch sefydliad eich hun i adolygu asedau gwybodaeth a phrosesau rhannu yn unol â phroses a gweithdrefnau eich sefydliad
11. dadansoddi canlyniadau'r archwiliad i ganfod arfer da y gellid ei rannu gydag eraill o fewn eich maes cyfrifoldeb eich hun
12. nodi elfennau annigonol o ran asedau gwybodaeth a ffyrdd o'u cywiro
13. creu cyfleoedd i wella asedau gwybodaeth a phrosesau rhannu gwybodaeth o fewn eich sefydliad eich hun
14. hybu gwerth rhannu gwybodaeth ac arfer da i wella ymarfer y sefydliad a'r gwasanaeth mae'n ei gyflwyno i randdeiliaid
15. gwirio bod prosesau cyfnewid a rhannu gwybodaeth yn cydymffurfio â phrotocolau a gweithdrefnau'r sefydliad a'r holl ofynion cyfreithiol a moesegol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y rhesymau dros rannu gwybodaeth ynghylch arfer da gydag eraill
2. ffyrdd o feincnodi arfer da a pham mae hynny'n bwysig
3. pam mae'n bwysig ystyried a yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn gallu cael ei throsglwyddo
4. beth yw asedau gwybodaeth a pham maen nhw'n bwysig i'r busnes
5. gwerth rhannu gwybodaeth ac arfer da gydag eraill i wella ased gwybodaeth y busnes a dod â gwerth ychwanegol
6. pam mae'n bwysig hybu manteision rhannu gwybodaeth ac arfer da ymhlith eraill
7. sut mae cynnal archwiliad gwybodaeth
8. y cyfraniad mae rhannu gwybodaeth ac arfer da yn ei wneud i wella ansawdd y gwasanaeth a gyflwynir yn barhaus
9. gofynion cyfreithiol a Chodau Ymarfer sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth ar draws y sector

## Ymddygiadau

1. Rydych yn barhaus yn ceisio adolygu eich perfformiad eich hun a pherfformiad eich sefydliad i ganfod arfer da y gellir ei rannu ag eraill
2. Rydych yn cyfathrebu ac yn hyrwyddo'r rhesymau dros rannu arfer da gydag eraill y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad i hwyluso'r broses gyfnewid
3. Rydych yn cael hyd i ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau mewnol ac allanol i brosesau cyfnewid
4. Rydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, polisïau sefydliadol  a chodau ymarfer proffesiynol, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag eiddo deallusol, ac yn gwirio bod eraill yn cydymffurfio â hwy
5. Rydych yn defnyddio arfer da gan eraill, o fewn a'r tu allan i'r sefydliad, i wella'r gwasanaeth rydych chi'n ei gyflwyno
6. Rydych yn ceisio ac yn creu cyfleoedd i ddefnyddio arfer da gan eraill i wella'r gwasanaeth mae'r sefydliad yn ei gyflwyno
7. Rydych yn ceisio ac yn creu cyfleoedd i rannu eich arfer da eich hun gydag eraill
8. Rydych yn gweithredu oddi mewn i ffiniau eich rôl a'ch cyfrifoldeb eich hun
9. Rydych yn creu cyfleoedd ar gyfer perthnasoedd gwerth ychwanegol

## Sgiliau

Cyfathrebu
Cyd-drafod
Cynnwys eraill
Ymgynghori
Cynllunio
Adolygu
Rhwydweithio
Datrys problemau
Dadansoddi
Monitro
Gwneud penderfyniadau
Blaenoriaethu
Rheoli gwybodaeth
Adfyfyrio

## Cysylltiadau â SGC eraill